Adroddiad ar

Ysgol Bodhyfryd

Range Road
Wrecsam
LL13 7DA

Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bodhyfryd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bodhyfryd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 280 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 224 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 23.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 5.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 12.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.4% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 27/04/2026 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/01/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/05/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bodhyfryd yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar sy’n rhoi pwyslais cadarn ar gynnydd, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae gan y pennaeth, sy’n newydd iawn i’w rôl, weledigaeth glir, sy’n sicrhau bod disgyblion yn derbyn ystod eang o brofiadau mewn amgylcheddau dysgu diddorol a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu’n bwrpasol at ymddygiad cadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae’r weledigaeth synhwyrol hon, sy’n cynnwys cyfraniadau ystyrlon gan staff a’r gymuned ehangach, yn cefnogi prosesau gwella’r ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r strwythur arweinyddiaeth diweddar wedi cael digon o amser i wreiddio’n llawn, nad yw eto’n dylanwadu’n llawn ar gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n effeithiol i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd ddifyr. Maent yn dîm o staff effeithiol sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio’n frwd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a’u cymuned yn dda. Mae Unedau Darpariaeth Barhaus yr awdurdod lleol, sydd ar safle’r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn yr unedau yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Mae cyflymder bwriadus i’r sesiynau dysgu ac maent yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Ar y cyfan, mae staff yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu. Serch hynny, nid yw adborth athrawon yn targedu’r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn ddigon miniog a chyson. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau’n gyson o fewn gweithgareddau dysgu unigol a thros amser. Mae hyn yn arwain at gynnydd effeithiol ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Er hyn, nid yw’r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso’u medrau ar lefelau heriol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n ddeallus, sy’n datblygu eu parch at eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, yn ogystal â hybu ymwybyddiaeth dda o’u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Sicrhau bod arweinyddiaeth yn sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol yn llawn

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson

A3 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau heriol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Bodhyfryd yn gymuned ddysgu hapus, gynhwysol a chefnogol. Mae'r pennaeth, sy'n newydd iawn i'w swydd, wedi dechrau gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohono'i hun, y staff a'r disgyblion. Mae hi'n cydweithio'n ddiwyd â'r tîm arwain, y staff a'r llywodraethwyr i sicrhau profiadau dysgu difyr a pherthnasol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr yn dechrau arddel gweledigaeth glir yn llwyddiannus. Mae hyn yn seiliedig ar sicrhau lles a gofal buddiol ynghyd â phrofiadau dysgu bwriadus i ddisgyblion. Er hyn, mae'r strwythur arweinyddiaeth newydd yn parhau yn eu cyfnodau cynnar ac nid ydynt eto wedi dylanwadu'n llawn ar gyfeiriad strategol newydd yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn. Mae hi wedi sicrhau, mewn amser byr, bod yr holl dîm arwain yn ystyried ystod eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth i wella iaith lafar, ysgrifennu estynedig, a phrofiadau dysgu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae holl dîm yr ysgol yn cyfrannu at y gweithdrefnau gwerthuso yn bwrpasol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau wrth ganolbwyntio ar ddatblygu ac esblygu'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn rhannu syniadau a mabwysiadu arferion effeithiol a

pherthnasol yn ddeallus, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos yr ysgol. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les, medrau a dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynnal trafodaethau proffesiynol cyson i drafod agweddau penodol o'r cwricwlwm, eu harferion asesu ac i dreialu egwyddorion addysgu newydd.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas effeithiol â rhieni. Mae cydweithio a chyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a'i chymuned yn hynod o dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cynnal gweithdai pwrpasol gyda rhieni a'r disgyblion am wahanol agweddau o'r cwricwlwm, fel 'Creu yn y Coed' a 'Coginio Iach i'r Teulu'. Mae hyn yn eu cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth o waith, lles a chynnydd eu plant

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn fodelau iaith effeithiol a chadarn ac maent yn gweithredu disgwyliadau uchel ynglŷn â'r Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn annog disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o'r iaith fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. Mae agweddau cadarnhaol gan lawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg ar draws yr ysgol ac maent yn ymdrechu'n rheolaidd i gyfathrebu'n gynyddol ddigymell mewn gwahanol gyd-destunau. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus a huawdl i gyfathrebu yn y ddwy iaith gan ystyried eu mannau cychwyn.

Mae athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn dda. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn arbrofi gyda gwneud marciau cynnar yn hyderus. Wrth i'w medrau ddatblygu ymhellach, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o sillafu ac atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu pwrpasol, yn y ddwy iaith ac mewn ystod o ffurfiau diddorol.

Mae athrawon yn cyflwyno tasgau mathemateg pwrpasol ac maent yn darparu ystod o adnoddau cefnogi buddiol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhifedd defnyddiol. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol a'u cymhwyso'n addas ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'r ystod lawn o fedrau, ar lefelau heriol, ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn gelfydd, er enghraifft drwy ddysgu am drychineb Gresffordd a'i effaith niweidiol ar y gymuned leol. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac

amrywiaeth a phrofiadau pwrpasol i ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol cadarnhaol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n ystyriol â'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon, yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd ac mae eu hymddygiad yn dda. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymdrechu'n frwd i gyfrannu at drafodaethau dosbarth. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn fwriadus. Maent yn sicrhau cyflymder da i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Yn ogystal, defnyddir cymorthyddion yn ystyrlon i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion. Yn yr arferion gorau, mae athrawon a chymorthyddion yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hybu dyfalbarhad ymysg disgyblion.

Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu dysgu ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd da. Er hyn, nid yw adborth athrawon bob tro'n cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon cyson.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu diddorol i gymell llwyddiannau a brwdfrydedd ymysg disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn defnyddio ystod synhwyrol o fannau diogel, pan fo angen, er enghraifft i'w cefnogi i ymdawelu. Maent yn cael eu defnyddio'n ddoeth gan staff i gefnogi lles disgyblion cyn iddynt ailafael â'u dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei chydlynu'n grefftus. Mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn effeithiol. O ganlyniad, Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Yn ogystal, mae Unedau Darpariaeth Barhaus yr awdurdod lleol, sydd ar safle'r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag ADY. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn yr unedau yn gwneud cynnydd cadarn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026